

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED  
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a  
gynhaliwyd am 7:50 pm ar nos  
Fawrth, 4ydd Mehefin 2019 yn yr  
Ystafell Ddarllen, Llanon.**

**Minutes of a meeting of the Council  
held at 7:50 pm on Tuesday, 4<sup>th</sup> June  
2019 at the Reading Room, Llanon.**

Yn bresennol:

Cadeirydd: y Cynghorydd, Phil Tomlins;  
y Cynghorwyr Jim Hughes, Dennis  
Morgan, Gwenno Piette, Aled Roberts,  
Bryan Tomlins a Caryl Vaughan.  
Y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards  
Mr Denfer Morgan (Clerc)

Present:

Chairman: Councillor Phil Tomlins;  
Councillors Jim Hughes, Dennis Morgan,  
Gwenno Piette, Aled Roberts, Bryan  
Tomlins and Caryl Vaughan.  
County Councillor Dafydd Edwards  
Denfer Morgan (Clerk)

**346 Ymddiheuriadau a Threfn**

Ymddiheurodd y Cynghorwys Sheila  
Davies, Lowri Jones a Lodwick Lloyd  
am fethu a bod yn bresennol yn y  
cyfarfod.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cafodd y  
cyfarfod ei gadeirio gan yr Is-gadeirydd,  
y Cynghorydd Phil Tomlins.

**346 Apologies and Procedure**

Councillors Sheila Davies, Lowri Jones  
and Lodwick Lloyd apologised for their  
inability to attend the meeting.

In the absence of the Chairman, the  
meeting was chaired by the Vice-  
Chairman, Councillor Phil Tomlins.

**347 Datgelu Buddiant Personol ac Un  
sy'n Rhagfarnu**

Fe ddatgelodd y Cynghorwr Caryl  
Vaughan buddiant personol ac un sy'n  
rhagfarnu yn y llythyr y cyfeirir ato yng  
nghofnod 354 isod a gadawodd yr  
ystafell pan y gafodd ei ddarllen a'i  
ystyried.

**347 Disclosure of Personal and Prejudicial  
Interest**

Councillor Caryl Vaughan disclosed a  
personal and prejudicial interest in the  
letter referred to in Minute 354 below and  
left the room during the reading out and  
consideration of the letter.

**348 Cofnodion o'r Cyfarfod Blynyddol a  
gynhaliwyd ar 7fed Mai 2019**

Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod  
Blynyddol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar  
7fed Mai 2019 fel rhai cywir.

**348 Minutes of the Annual Meeting held on  
7<sup>th</sup> May 2019**

The Minutes of the Annual Meeting of the  
Council held on 7<sup>th</sup> May 2019 were  
confirmed as being a correct record.

**349 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a  
gynhaliwyd ar 7fed Mai 2019**

Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r  
Cyngor a gynhaliwyd ar 7fed Mai 2019 fel  
rhai cywir.

**349 Minutes of the Monthly Meeting held  
on 7<sup>th</sup> May 2019**

The Minutes of the Monthly Meeting of the  
Council held on 7<sup>th</sup> May 2019 were  
confirmed as being a correct record.

**350 Materion yn codi o'r Cofnodion**

Cofnod 137 a) – cais am olau stryd yn

**350 Matters arising from the Minutes**

Minute 317 a) Request for street light at

Nebo. Dywedodd y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards ei fod yn dilyn i fyny lleoli golau stryd yn Nebo gyda'r Capel .

**351 Cofnodion o Gyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 16eg Mai 2019**

Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod Arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 16eg Mai 2019, mewn perthynas â chlirio Maes Parcio'r Morfa, fel rhai cywir.

**352 Cynnal a Chadw Llwybrau Cyhoeddus**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Mr Eifion Jones, Rheolwr Arfordir a Chefngwlad Cyngor Sir Ceredigion i annerch y Cyngor ar faterion yn ymwneud â rheoli llwybrau cyhoeddus.

Aeth Mr Jones yn ei flaen i amlinellu rôl ei wasanaeth yn y gwaith o reoli'r rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus a llwybrau ceffylau yn y Sir gan gynnwys y cyllideb cyfyngedig a oedd ganddo i'w ddefnyddio. Talodd deyrnged i'r cynghorau bro hynny a oedd wedi cymryd y cyfrifoldeb i gynnal a chadw llwybrau troed yn eu hardaloedd a dywedodd bod hwn yn cael ei werthfawrogi. Dywedodd fod y drefn hwn wedi esblygu fel confensiwn dros y blynyddoedd ac nad oedd yna gytundeb ffurfiol rhwng y Cyngor Sir a'r cynghorau lleol. Cyfyngir y gwaith a wnaed gan ei wasanaeth i dorri prysgwydd ac nid oedd yn cynnwys torri cloddiau a oedd yn ffinio gyda llwybrau. Ni wneir 'pioneer clearance' yn ystod yr haf, gyda toriadau yn cael eu gadael ar y llwybrau gyda unrhyw dyfiant a oedd yn gor-hongian yn cael ei adael ar yr ochrau. Dywed y canllawiau y dylid cadw 2 metr yn glir ar lwybr troed a 3 metr ar lwybr ceffyl. Roedd perchnogaeth cloddiau, mewn sawl achlysur, yn amwys, ac nid oedd yna ateb hawdd i faint o'r tyfiant oedd yn or-hongian ellid ei dorri.

Darparwyd copi o'r ddogfen tendro a ddefnyddir gan ei wasanaeth er mwyn cynorthwyo'r Cyngor gyda'i broses tendro yn y dyfodol.

Nebo. County Councillor Dafydd Edwards stated that he was following up the locating of the street-light with the Chapel.

**351 Minutes of a Special Meeting held on 16<sup>th</sup> May 2019**

The Minutes of the Special Meeting of the Council held on 16<sup>th</sup> May 2019, in respect of undertaking the clearance of the Morfa Car Park, were confirmed as being a correct record.

**352 Management of Public Footpaths**

The Chairman welcomed to the meeting Mr Eifion Jones, Ceredigion County Council Coast and Countryside Manager to address the Council on public footpath management matters.

Mr Jones proceeded to outline the role and responsibilities of his service in the management of the network of public footpaths and bridleways in the County, including the very limited budget at his disposal. He paid tribute to those community councils who had taken on the responsibility for maintaining footpaths in their areas and stated that it was greatly appreciated. He stated that this arrangement had evolved as a convention over the years and that there was no formal agreement between the County Council and the local councils. The work undertaken by his service was limited to brush-cutting and did not involve cutting boundary hedges. No 'pioneer clearance' was undertaken during the summer, with the cuttings left on the paths with any overhanging vegetation left on the sides. The guidance was to keep 2 metres clear on a footpath and 3 metres on a bridleway. The ownership of boundary hedges was, in a number of instances, a 'grey area' and there was no easy answer as to the amount of overhanging vegetation that could be cut.

A copy of the tender document used by his service was provided in order to assist the Community Council with its future tendering process.

**PENDERFYNWYD** nodi'r cyflwyniad ac i ddiolch i Mr Jones am ddod i'r cyfarfod.

**353 Cau allan y Cyhoedd a'r Wasg PENDERFYNWYD**, yn unol â darpariaethau Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, cau allan y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod ar gyfer ystyried yr eitem ganlynol er mwyn trafod materion cyfrinachol a gynhwysir yn y llythyr dyddiedig 29ain Mai 2019.

**354 Contract Torri Tyfiant Llwybrau Cyhoeddus**  
Rhoddwyd ystyriaeth i'r nodyn a baratawyd gan yr arolygwyr llwybrau, y Cynghorwyr Sheila Davies a Dennis Morgan, yn dilyn yr archwiliad diweddar, a waned ganddynt o gyflwr y llwybrau yn dilyn y toriad cyntaf gan y contractwr.

**PENDERFYNWYD** gofyn i'r clerc gysylltu gyda'r perchnogion tir perthnasol ynghylch tynnu i ffwrdd pyst y ffens a'r weiar ar ochr y llwybrau y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod.

Aeth y Cyngor ymlaen i drafod y sefyllfa presennol yn ymwneud â'r contract, yn dilyn y penderfyniad yn y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 16eg Mai 2019.

Adroddodd y Clerc fod yna lythyr dyddiedig 29ain Mai 2019 wedi'i dderbyn o'r contractwr, Mr Meurig Lloyd, cafodd ei roi iddo drwy law y prynhawn hwnnw; a chafodd ei ddarllen gan y Cadeirydd.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

- i) gofyn i Mr Lloyd rhoi gwybod os oedd am gario 'mlaen gyda'r contract fel a ysgrifennwyd ar hyn o bryd.
- ii) Os taw dyna oedd ei fwriad, yn ogystal a strimio'r prysgwydd, dylai gweddill y

It was **RESOLVED** to note the presentation and to thank Mr Jones for attending the meeting.

**353 Exclusion of Public and Press**  
It was **RESOLVED**, under the provisions of Section 1(2) of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, to exclude the public and press from the meeting for the consideration of the following item in order to discuss confidential matters contained in the letter of 29<sup>th</sup> May 2019.

**354 Public Footpath Growth Cutting Contract**  
Consideration was given to the note prepared by the footpath inspectors, Councillors Sheila Davies and Dennis Morgan, following their recent inspection, on the condition of the footpaths following the first cut by the contractor.

It was **RESOLVED** to request the Clerk to contact the landowners concerned with regard to the removal of the protruding fence posts and wire on the side of the footpaths identified at the meeting.

The Council then proceeded to consider the present position with regard to the contract, following the decision at its special meeting held on 16<sup>th</sup> May 2019.

The Clerk reported the receipt of a letter dated 29<sup>th</sup> May 2019 from the contractor, Mr Meurig Lloyd, delivered to him by hand that afternoon; which was read out by the Chairman.

Following discussion, it was further **RESOLVED** as follows;

- i) to request Mr Lloyd to indicate whether he wishes to proceed with the contract as currently written.
- ii) to that is his intention, in addition to the strimming of undergrowth, the remaining cuts to be undertaken during the nesting season should be

toriadau yn ystod y tymor nythu gael eu cyfyngu i docio'r tyfiant sy'n gor-hongian.

Canlyniad hwn dylai fod llai o doriadau, y dylid eu gwaredu yn y prysgwydd ar ochrau'r llwybrau troed mewn ffordd na fyddai'n amharu ar ddiogelwch defnyddwyr y llwybrau troed. Ni ddylid gwaredu toriadau ar dir preifat sy'n ffinio gyda'r llwybrau troed. Prun bynnag petai, ar adegau, nifer mawr o doriadau na ellir ei gadael yn y fan a'r lle, yna gofynnir iddo eu cymryd i ffwrdd a'u gwaredu yn y ffordd arferol.

- iii) Roedd y Cyngor yn fodlon ei fod wedi talu Mr Lloyd am y gwaith a wnaed hyd yn hyn, sef swm o £284 am y toriad cyntaf a wnaed ganddo ddiwedd Ebrill / dechrau Mai. Dywedodd y Cyngor y byddai'n hapus i dalu am ragor o doriadau a wnaed ym Mehefin yn ei gyfarfod ar 2il Gorffennaf. Dywedodd y Cyngor na ellid talu contractwyr ymlaen llaw, cyn i waith gael ei wneud.
- iv) Fe fyddai'r manyleb a gynhwysir yn y ddogfen tendro presennol yn cael ei adolygu cyn i'r gwaith gael ei dendro yn 2020.
- v) Nodwyd gweddill cynnwys y llythyr.

limited to the trimming of overhanging growth. This should result in fewer cuttings, which should be disposed of in the undergrowth at the sides of the footpaths in a manner which does not prejudice the safety of the users of the footpaths. No cuttings should be deposited on private land adjoining the footpaths. However, if it was his opinion that there were, on occasion, large amounts of cuttings that cannot be left on site, then he be requested to take those away and dispose of them in the usual way.

- iii) The Council was satisfied that it had paid Mr Lloyd for the work undertaken to date, namely a sum of £284 for the first cut undertaken by him in late April / early May. The Council indicated that it would be happy to pay for further cuts undertaken during June at its 2nd July meeting. The Council indicated that it could not pay contractors in advance for work which was yet to be carried out.
- iv) The specifications contained in the current tender document would be reviewed prior to the work being offered for tender in 2020.
- v) The remaining contents of the letter were noted.

### **355 Adroddiad Archwilio Eiddo**

Roedd y porfa yn y man chwarae wedi'i dorri erbyn hyn. Roedd y cwrbyn yn cael ei drwsio. Disgwylid pris am ail-osod y meinciau wrth ymyl y cyrtiau tenis. Roedd angen cael prisiau ar gyfer gwella'r y meinciau yn y gymuned.

### **356 Y Chalet**

Adroddwyd y prisiau canlynol a dderbyniwyd am wahanol agweddau'r gwaith:

### **355 Property Inspection Report**

The grass at the playground had now been cut. The kerb was being repaired. A quote was awaited for the re-placing of the benches adjoining the tennis courts. Prices were needed to renovate the benches in the community.

### **356 The Chalet**

The following prices received for the various aspects of the work were reported:

Sylfaen o ddur – un pris gan Teify Forge am opsiwn yn cynnwys trawst yn y swm o £1,418.30 + TAW a opsiwn yn cynnwys blwch yn y swm o £1,240.60 + TAW  
 Defnyddiau – un pris gan Travis Perkins yn y swm o £2,765.43 + TAW  
 Y gwaith llafur – dau bris, sef:  
 Emyr Harries am £2,737 + VAT  
 Dai Richards amr £3,350.

Nodwyd fod y pensaer a barataodd y cynlluniau, Ceredig Morgan, wedi cyflwyno anfoneb ac wedi'i dalu £300 (Cofnod 354 isod).

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**;

- i) bwrw 'mlaen gyda'r opsiwn o Sylfaen o drawst dur ac i ofyn am ail bris gan Edwards Buildings;
- ii) gofyn am ail bris am gyflenwi'r defnyddiau; a
- iii) bwrw 'mlaen gyda'r cynllun yn unol â'r amcanbrisoedd ac i awdurdodi'r Clerc i gyflwyno cais i'r Cyngor Sir am grant cymunedol.

### 357 Materion Ariannol

**PENDERFYNWYD** talu'r anfonebau canlynol:

D Jones a'i Fab (Trwsio'r Hysbysfwrdd)	£717.49
Gwasg Aeron (Cylchlythyr)	£274
Ceredig Morgan (Cynlluniau'r Chalet Newydd)	£300
David Jones & Co. (Archwilydd Mewnol)	£70
BHIB (Adnewyddu Yswiriant)	£429.26
Matthew Butler (Torri Porfa)	£150
<i>Cyflog y Cerc (Ebr-Mai-Meh):</i>	
Denfer Morgan	£619.32
CThem (TWE)	£154.83

### 358 Cyfrifon Blynyddol 2018-19

Cyflwynodd y Clerc y Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2018-19 fel a archwiliwyd gan

Steel base – one quote by Teify Forge for girder option in the sum of £1,418.30 + VAT and box option in the sum of £1,240.60 + VAT

Materials – one quote by Travis Perkins in the sum of £2,765.43 + VAT

Labour – two quotes, namely:  
 Emyr Harries for £2,737 + VAT  
 Dai Richards for £3,350.

It was noted that the architect who had produced the plans, Ceredig Morgan, had submitted an invoice and paid £300 (Minute 354 below).

Following discussion, it was **RESOLVED**:

- i) to proceed with the option of the girder steel base and to seek a second quote from Edwards Buildings for its supply;
- ii) to seek a quote from a second supplier for the materials;
- iii) to proceed with the scheme in accordance with the estimated costs and to authorise the Clerk to submit an application to the County Council for a community grant.

### 357 Finance Matters

It was **RESOLVED** to pay the following invoices:

D Jones & Son (Noticeboard Repairs)	£717.49
Aeron Printers (Newsletter)	£274
Ceredig Morgan (Replacement Chalet Plans)	£300
David Jones & Co. (Internal Auditor)	£70
BHIB (Insurance Renewal)	£429.26
Matthew Butler (Grass Cutting)	£150
<i>Clerk's Salary (Apr-May-Jun):</i>	
Denfer Morgan	£619.32
HMRC (PAYE)	£154.83

### 358 2018-19 Annual Accounts

The Clerk presented the Annual Accounts for 2018-19 as audited by the Council's

Archwilydd Mewnol y Cyngor.

Internal Auditor.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r  
Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2018-19 fel  
y'u cyflwynwyd.

It was **RESOLVED** to approve the Annual  
Accounts for 2018-19 as presented.

**359 Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod  
Genedlaethol Ceredigion 2020**

**PENDERFYNWYD** awdurdodi'r  
Cadeirydd, y Cynghorydd Lowri Jones, i  
fynd i Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod  
Genedlaethol Ceredigion 2020 yn  
Aberteifi ar ddydd Sadwrn, 29 Mehefin  
2019.

**359 Ceredigion National Eisteddfod 2020  
Proclamation Ceremony**

It was **RESOLVED** to authorise the  
Chairman, Councillor Lowri Jones, to  
attend the Ceredigion National Eisteddfod  
2020 Proclamation Ceremony in Cardigan  
on Saturday, 29 June 2019.

**360 Arolwg Etholiadol Sir Ceredigion:  
Adroddiad Argymhellion Terfynol**

**PENDERFYNWYD** nodi fod yr Adroddiad  
hwn yn cadarnhau y bydd Dosbarth  
Etholiadaol Newydd y Cyngor Sir yn  
cynnwys Cymuned Llansantffraed a  
Ward Llanbadarn Trefeglwys Cymuned  
Dyffryn Arth ac fe'i elwir yn  
**Llansanffraid**.

**360 Review of the Electoral Arrangements  
for the County of Ceredigion: Final  
Recommendations Report.**

It was **RESOLVED** to note that this Report  
confirmed that the new County Council  
Electoral Division will comprise the  
Community of Llansantffraed and the  
Llanbadarn Trefeglwys Ward of the Dyffryn  
Arth Community and would be called  
**Llansanffraid**.

**361 Unrhyw Fater Cymwys Arall**

- a) Cyfeiriodd y Cynghorydd Aled Roberts at  
a) rhagor o ganmol a dderbyniwyd am y  
MUGA; b) ei awydd i ymddiswyddo ei  
aelodaeth o Gorff Llywodraethol yr Ysgol  
Gynradd oherwydd anhawster i fynychu  
cyfarfodydd – a chytunwyd cynnwys  
eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.
- b) Cyfeiriodd y Cynghorydd Phil Tomlins at  
yr angen i lanhau'r man eistedd yn  
rheolaidd a chytunwyd hefyd i gynnwys  
hwn ar agenda'r cyfarfod nesaf. Nodwyd  
hefyd fod y ffens a'r glwyd wedi'u trwsio  
a disgwylid anfoneb am y gost y gwaith.

**361 Any Other Competent Business**

- a) Councillor Aled Roberts referred to a)  
further compliments received about  
MUGA; b) his wish to resign membership  
of Governing Body of the Primary School  
due to difficulty attending meetings – and  
it was agreed to include an item on next  
meeting's agenda.
- b) Councillor Phil Tomlins referred to the  
need to clean the seating area on a regular  
basis and it was also agreed to include this  
on next meeting's agenda. It was also  
noted that the fence and gate had been  
repaired and an invoice was awaited for  
the cost of the work.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:30 p.m.

The meeting concluded at 9:30 p.m.